

CALON TÂN



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

LAWNSIAD STAYWISECYMRU

TUDALEN 6



HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2023

TUDALEN 4



LLUNIAU O FAES
YR EISTEDDFOD 2023
TUDALEN 8

NEWYDDION Y
GORSAGOEDD
TUDALEN 10

CLWB ROWNDERI
NEWYDD
TUDALEN 12

CYNNWYS

| | |
|--------------------------|----|
| YMGYRCHOEDD | 3 |
| HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU | 4 |
| LAWNSIAD STAYWISECYMRU | 6 |
| EISTEDDFOD YR URDD 2023 | 8 |
| NEWYDDION Y GORSAFOEDD | 10 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 12 |
| AWDURDOD TÂN | 14 |
| NEWYDDION STAFF | 15 |
| DIGWYDDIADAU | 16 |

YSTAGEDAU DIGWYDDIADAU MAI 2023



YMGYRCHOEDD

EICH CADW'N DDIOGEL YR HAF HWN!

Mae'r haf yma o'r diwedd ac mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn barod i roi ychydig o gyngor diogelwch hanfodol i sicrhau eich bod yn mwynhau Haf diogel.

Mae'r tywydd cynhesach yn rhoi cyfle perffaith i ni fentro allan a mwynhau cefn gwlad neu draethau lleol. P'un a ydych chi'n bwriadu aros gyda'ch teulu neu ffrindiau, neu'n gwneud dim mwy na mwynhau'r heulwen yn eich gardd, mae gennym yr holl awgrymiadau y bydd eu hangen arnoch i fod yn ddiogel!

Ewch i'n gwefan am rai awgrymiadau diogelwch hanfodol yr haf hwn, gan gynnwys diogelwch barbeciw, diogelwch dŵr a llawer mwy - www.tancgc.gov.uk

Hefyd, dilynwch ni ar ein sianeli Cyfryngau Cymdeithasol am fwy o negeseuon diogelwch. [Twitter - @mawwfire](https://twitter.com/mawwfire), [Facebook - @mawwfire](https://facebook.com/mawwfire) ac [Instagram - mawwfire_rescue](https://instagram.com/mawwfire_rescue)

Dywedodd Pennaeth Corfforaethol Rheoli Risgiau Cymunedol, Peter Greenslade:

"Mae gan ardal Gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru rai lleoliadau gwych i dreulio'ch haf, gyda'n harfordir eang a'n Parciau Cenedlaethol. Rydym am i chi fwynhau'r awyr agored ac archwilio'r hyn sydd gan ganolbarth a gorllewin Cymru i'w gynnig, felly mae eich cadw chi a'ch teulu yn ddiogel yn allweddol i sicrhau ein bod i gyd yn cael haf gwych "



HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2023 - LLWYDDIANT YSGUBOL!

Ar 3 Mehefin, ymgasglodd Diffoddwyr Tân o bob rhan o'r DU, yr Almaen a Kuwait yng Nghanol Dinas Abertawe i gymryd rhan yn [Her Diffoddwyr Tân Cymru](#), sy'n rhan o ras ranbarthol [Her Diffoddwyr Tân Prydain](#). Mae'r digwyddiadau hyn yn codi arian pwysig ar gyfer [Elusen y Diffoddwyr Tân](#) sy'n cefnogi anghenion ieuchyd meddwl a chorfforol Teulu Tân y DU.

Roedd pob cystadleuydd wedi'i wisgo mewn cit diffodd tân strwythurol llawn ac yn cymryd rhan mewn cyfres o heriau corfforol a gynlluniwyd i brofi eu cryfder, eu hystwythder a'u stamina, ynghyd ag arddangos eu sgiliau diffodd tân i'r torfeydd o wylwyr. Roedd cyfanswm o 8 her yr oedd yn rhaid eu cwblhau yn llawn, yn yr amser cyflymaf i ennill y ras, ac yn cynnwys rhedeg 50m, llusgo dymi, cario cynhwysydd a mw.



Ochr yn ochr â'r heriau i ddiffoddwyr tân, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 'Bentref Diogelwch Cymunedol' ar hyd Stryd Rhydychen, lle gallai aelodau'r cyhoedd gael mynediad i gyngor a gwybodaeth diogelwch am ddim gan amrywiaeth o sefydliadau partneriaeth. Y rhai a ymunodd â ni ar y diwrnod oedd: [Heddlu De Cymru](#), [Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru](#), [Cŵn Tywys Cymru](#), [Gwarchod y Gymdogaeth Abertawe](#), [RNLI](#), [Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe](#), [Cyngor Abertawe](#), [Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru](#) a [Gwasanaeth Pobl Ifanc Cyngor Abertawe](#).

Roedd yna fwrwm o wylwyr yng nghanol y ddinas drwy gydol y dydd, roedd yr haul yn gwenu ac roedd yna wir ymdeimlad o ysbryd cymunedol yno, gyda llawer o hwyl, sgwrsio, a wynebau hapus.

Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a gymerodd ran ac a ymunodd â ni ar y diwrnod. Hoffem hefyd ddiolch i drefnwyr y digwyddiad; Dominic Norcross a'i dîm, Gwenda Jenkins am gydlynw'r Pentref Diogelwch Cymunedol a diolch yn arbennig i Gadetaid Tân GTACGC a weithiodd yn ddifflino drwy gydol y dydd, gan ail-osod y cwrs ar ôl pob her, yn ogystal â chymryd rhan mewn rhai o'r rasys hefyd!



Dywedodd y Prif Swyddog Tân Roger Thomas:

"Roedd Her Diffoddwyr Tân Cymru yn ddiwrnod y bu disgwyl mawr amdano i bawb, ac rwyf wrth fy modd yn dweud na chafodd neb eu siomi! Roedd ymdeimlad gwych o gymuned drwy gydol y diwrnod, o'r bonllefau o anogaeth i'r diffoddwyr tân oedd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth, i'r Pentref Diogelwch Cymunedol lle daeth partneriaid at ei gilydd i hyrwyddo ystod eang o ymgysylltu cymunedol trwy gynnig gwybodaeth a chyngor am ddim. Roedd y diwrnod nid yn unig yn gyfle i hybu ffitrwydd corfforol, lles, a gwaith tîm ond fe wnaethom hefyd godi arian hanfodol ac ymwybyddiaeth ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ddaeth i'r digwyddiad ac a fu'n cymryd rhan i wneud Her Diffoddwyr Tân Cymru yn llwyddiant ysgubol!"

Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol, ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf.



LAWNSIO STAYWISECYMRU YN EISTEDDFOD YR URDD

Ar 30 Mai 2023 lansiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru lwyfan addysgol newydd sbon - StayWiseCymru yn Eisteddfod yr Urdd.

Ar y diwrnod fe wnaethom groesawu nifer o'n hasiantaethau partner i ymuno â ni i lansio'r llwyfan dysgu yn rhad ac am ddim sydd â llawer o adnoddau wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc.

Mae'r wefan yn cynnal adnoddau y gellir eu lawrlwytho am ddim gydag amrywiaeth o themâu diogelwch a gwersi sy'n canolbwyntio ar y Gwasanaethau Brys ac Elusennau Diogelwch. Mae'r adnoddau hyn ar gael ar gyfer addysgwyr, defnyddwyr golau glas, a'r cyhoedd.

Bydd gan StayWiseCymru bopeth sydd ei angen i gynllunio sesiynau addysgol. Bydd yr holl adnoddau yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru newydd, a bydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn lleihau'r amser y mae athrawon yn treulio wrth ddatblygu sesiynau.

Mae Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) yn arwain ar y bartneriaeth y tu ôl i StayWiseCymru. Dywedodd Chris Bigland, Arweinydd Addysg NFCC, a Chyfarwyddwr Rhaglen StayWiseCymru:


"Mae StayWiseCymru wedi ymrwymo i achub bywydau drwy addysg. Trwy gydweithio â'n partneriaid, rydym wedi cynhyrchu adnodd dysgu cyson y gall addysgwyr o bob rhan o'r gymuned ei ddefnyddio'n hyderus, boed yn athrawon, y rheiny sy'n addysgu gartref, neu staff a gwirfoddolwyr y gwasanaeth brys."

Dywedodd Cadeirydd Grŵp Strategol StayWiseCymru, Peter Greenslade:



"Mae cydweithio â Gwasanaethau Brys eraill wedi ein galluogi i ddarparu adnoddau diogelwch effeithiol i addysgwyr ledled Cymru, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn negeseuon ataliol ynghylch sut i gadw eu hunain yn ddiogel."

Mae gwefan StayWiseCymru yn hawdd ei defnyddio - dewiswch grŵp oedran, pwnc neu thema, a byddwch yn dod o hyd i gasgliad o adnoddau i gadw myfyrwyr yn brysur.

Am yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ewch i www.staywisecymru.co.uk



Wedi eu gweld AR Y MAES!



NEWYDDION Y GORSAFOEDD

YMARFER YN NGORSAF RHYDAMAN

Ym mis Mai, gwnaeth criw Rhydaman cynnal ymarfer dadlygru yn LSN Diffusion yn Rhydaman.

Pwrpas yr ymarfer, a oedd yn cynnwys Diffoddwyr Tân Llawn Amser ac Ar Alwad o Orsaf Dân Rhydaman, oedd sefydlu strwythur dadlygru sych a datblygu gweithdrefnau interim. Yn ogystal â'r tywydd da, bu'r criw yn ffodus i gael cwmni Hyfforddwr Under Dadlygru Mâs y NFCC, Lee Butler.

Mae criwiau Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru'n trefnu ac yn mynychu amrywiaeth o ymarferion hyfforddi fel yr un hwn yn aml er mwyn adnewyddu a datblygu eu gwybodaeth ymateb brys i gadw ein cymunedau'n ddiogel.



NEWYDDION Y GORSAFOEDD

GALW I WELD ELWYN JONES, DIFFODDWR TÂN WEDI YMDDEOL

Ddydd Mawrth, Mai 30ain, ymwelodd criw ar alwad Gorsaf Dân Y Drenewydd ag Elwyn Jones, yn dilyn ei gais i weld injan dân eto.

Wedi treulio 20 mlynedd yn gweithio fel diffoddwr tân, roedd gan Elwyn ddigon o straeon i'w hadrodd i'r criw ar ei brofiad.

Ymunodd Elwyn â Gwasanaeth Tân ar y cyd Sir Ddinbych a Sir Drefaldwyn yn hen Orsaf y Drenewydd ym 1948 yn 18 oed.

Gwelir Elwyn yn y llun ar y dde ar y gwaelod, a dynnwyd ym 1952, ar y chwith eithaf yn y rhes flaen.



ATGOFION Y GWASANAETH

Os oes gennych unrhyw hen luniau, fideos a straeon yr hoffech eu rhannu, anfonwch nhw atom i pressofficer@mawwfire.gov.uk os gwelwch yn dda!



CHWARAEON A CHYMDEITHASU

EIN CLWB ROWNDERI NEWYDD - "FLAMING FIERCE"

Mae clwb rownderi "Flaming Fierce"
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a
Gorllewin Cymru (GTAGCC) wedi cael cwpl
o fisoedd prysur!

Mae'r tîm Rownderi newydd a gafodd ei ffurfio
ym mis Ebrill eleni yn cynnwys aelodau staff
y Gwasanaeth o'r adrannau Gweithredol,
Risg Gorfforaethol, Diogelwch Tân Busnes a
Diogelwch Tân Cymunedol. Bob dydd Sul trwy
gydol yr haf mae'r tîm yn cwrdd yn Ysgol Brombil
ym Mhort Talbot i gystadlu mewn gemau yn
erbyn gwahanol dimau cynghrair.

Hyd yn hyn maent wedi cael llwyddiant mawr
ac wedi trechu timau fel Batitudes, Games of
Throws, Aces of Bases, Untouchaballs a mwy. Ar
hyn o bryd mae Flaming Fierce ar frig y gynghrair
ac wedi torri recordiau ar gyfer cyflawni'r nifer
fwyaf o rownderi eleni!

Daliwch ati, a gobeithio y byddwch yn parhau i
lwyddo!

Mae adran Rownderi Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru yn agored i
holl weithwyr y gwasanaeth gan gynnwys
gwirfoddolwyr, gweithwyr amser llawn, diffoddwyr
tân ar alwad, staff cymorth ac aelodau sydd wedi
ymddeol. Mae croeso i bawb ymuno neu helpu
mewn unrhyw ffordd, boed hynny trwy chwarae,
hyfforddi, ffisiotherapi neu ddod draw ar gyfer
ochr gymdeithasol y gêm.

I ymuno ag Adran Rownderi Gwasanaeth Tân ac
Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n rhan
o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, anfonwch
e-bost at Jenny Davies [jenny.davies@mawwfire.
gov.uk](mailto:jenny.davies@mawwfire.gov.uk) i gael rhagor o wybodaeth.



CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU
SPORTS & SOCIAL CLUB

**Dewch i ymuno
HEDDIW
Become a member
TODAY**

**I gael rhagor o wybodaeth am y Clwb Chwaraeon a
Chymdeithasol, anfonwch neges e-bost**

**For further information regarding the
Sports & Social Club, please contact**

Steve Philpott - S.philpott@mawwfire.gov.uk

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasu yn agored i holl aelodau
presennol y Gwasanaeth, a'r aelodau sydd wedi ymddeol.

The Sports and Social Club is open to all current and
retired members of the Service.

CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD NEWYDD I AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU



Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Authority

Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd wedi eu hethol i arwain Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.

Yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yr Awdurdod Tân ddydd Llun, Mehefin 12fed, 2023, etholwyd y Cynghorydd Gwynfor Thomas o Bowys yn Gadeirydd a'r Cynghorydd John Davies o Sir Benfro yn Ddirprwy Gadeirydd.



GWYNFOR THOMAS

Wrth sôn am ei benodiad yn Gadeirydd yr Awdurdod Tân, dywedodd y Cynghorydd Thomas:

"Mae'n wefr i gael fy mhenodi'n Gadeirydd yr Awdurdod Tân. Edrychaf ymlaen at y dasg o ddarparu llywodraeth dda i wasanaeth brys sy'n ei haeddu, a fydd yn ei dro yn rhoi gwasanaeth ac amddiffyniad i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu y gellir ymddiried ynddo a dibynnu arno."



JOHN DAVIES

Wrth gael ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân, dywedodd y Cynghorydd Davies:

"Mae'n ffrind ac yn anrhydedd cael gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd i wasanaeth brys uchel ei barch ac y gellir ymddiried ynddo. Byddaf yn ymdrechu, ynghyd â'r Cadeirydd, i gefnogi'r gwerthoedd a'r amcanion sy'n cyflawni pan fo'r angen fwyaf."



NEWYDDION STAFF

GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN MNYCHU'R CORONI

Cynhaliwyd Coroni Eu Mawrhydi'r Brenin Siarl III a'r Frenhines Camilla yn Abaty Westminster ddydd Sadwrn 6 Mai, y Gwasanaeth Coroni cyntaf ers bron i 70 mlynedd. Roedd dathliadau'r diwrnod yn cynnwys dwy orymdaith seremonïol fawr – Gorymdaith y Brenin a Gorymdaith y Coroni - trwy Ganol Llundain.

Roedd dros 1,000 o aelodau'r Lluoedd Arfog o bob un o'r tri Gwasanaeth, Cludwyr Baneri'r Llang Brydeinig Frenhinol, Gwasanaethau Sifiliaid mewn Lifrai (UCS) a Sefydliadau Cymunedol ar hyd y strydoedd, yn rhan yn orymdeithiau'r diwrnod.

Yn cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Coroni ac yn rhan o'r Gwasanaethau Sifiliaid mewn Lifrau roedd y Pennaeth Cyflenwi Hyfforddiant, Stuart Bate, yn dilyn enwebiad gan Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Roger Thomas.

Dywedodd Stuart Bate am fod yn y Coroni:

"Roedd yn anrhydedd ac yn ffrind cael cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn digwyddiad mor hanesyddol. Roedd trefniadaeth y digwyddiad, ar y diwrnod ac yn ystod ymarferion, yn rhyfeddol gydag amseriadau mor fanwl gywir ac roedd yr awyrgylch yn anhygoel."

Fel rhan o'n dyletswyddau, aethom ymlaen i Whitehall, dan arweiniad Band y Môr-filwyr Brenhinol, ac roeddem yn ein llefydd wrth i'w Fawrhydi basio yng Nghoets y Jiwbilli Ddiemwnt."



DIWRNOD AGORED OPEN DAY

**GORSAF /
PENCADLYS
CAERFYRDDIN**

Heol Llwyn Pisgwydd,
Caerfyrddin, SA31 1SP

**CARMARTHEN
STATION / HQ**

Lime Grove Avenue,
Carmarthen, SA31 1SP

Er budd | In aid of



**DEWCH I
WELD SBARC!
COME AND
SEE SBARC!**

BWYD BARBECIW : **BBQ FOOD**
ARDDANGOSIADAU BYW : **LIVE DEMONSTRATIONS**
PROFION FFITRWYDD : **FITNESS TESTS**
PEINTIO GWYNEBAU : **FACE PAINTING**
RAFFL : **RAFFLE**



DIGWYDDIADAU

DIWRNODAU AGORED

Diwrnod Agored Abergwaun - Gorffennaf 28ain

Diwrnod Agored Arberth - Gorffennaf 25ain

Diwrnod Agored Aberdaugleddau - Awst 3ydd

Diwrnod Agored Pontardawe - Awst 25ain

Diwrnod Agored y Pencadlys - Medi 1af

Diwrnod Agored Hwlfordd - Medi 9fed



COFIWCH Y DYDDIAD

Gwobrau Mwy Na Dim Ond Tanau 2023

Cynhelir digwyddiad eleni ddydd Gwener, Tachwedd 10fed 2023, yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod a fydd yn cydnabod ymdrechion aruthrol a wneir gan weithwyr y Gwasanaeth i wneud ein cymunedau'n fwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

Mae enwebiadau bellach ar agor, ewch i [Insight](#) i gyflwyno eich enwebiad a bydd yn cau ddydd Gwener, Medi 1af.*

Gallai eich enwebiad wneud byd o wahaniaeth!

*Yn agored i staff y gwasanaeth yn unig



**MWY NA DIM OND TANAU
MORE THAN JUST FIRES**





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

#MwyNaDimOndTanau
#MoreThanJustFires



www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - MEHEFIN 2023